# Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg - Adolygiad Blynyddol 2024-2025

## 1. Cefndir

1.1 Mae’r papur hwn yn adolygu gweithgarwch a pherfformiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) ar gyfer 2024-2025. Mae’r prif bwyntiau o’r Adolygiad hwn wedi’u cynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn 2024-2025.

1.2 Prif rôl y Pwyllgor yw darparu cymorth annibynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch materion sicrwydd a chynorthwyo’r Ombwdsmon i gyflawni cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi adolygu a monitro’r prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, ac mae wedi derbyn ac ystyried canlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol. Bu’r Pwyllgor yn allweddol o ran diffinio agweddau ar y gwaith archwilio a monitro ymateb y rheolwyr i'r materion a godwyd.

## 2. Cylch Gorchwyl

2.1 Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor wedi'i atodi yn Atodiad A.

## 3. Aelodaeth

3.1 Mae’r aelodaeth yn cynnwys isafswm o bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol. Roedd aelodaeth y Pwyllgor yn ystod 2024-2025 fel a ganlyn:

- Mr Ian Williams (Cadeirydd) (hyd at fis Gorffennaf 2024)
- Mr Mike Usher (Is-gadeirydd hyd at fis Gorffennaf 2024 a Chadeirydd o fis Awst 2024)
- Mr John McSherry
- Mrs Joanest Varney-Jackson (hyd at fis Gorffennaf 2024)
- Dr Jane Martin (Cadeirydd y Panel Cynghori)
- Mr Dave Tosh (Is-gadeirydd o fis Awst 2024)
- Ms Laura Davies (o fis Hydref 2024)
- Ms Jayne Woods (o fis Hydref 2024)

Roedd Ian Williams yn Gadeirydd a Mike Usher yn Is-gadeirydd hyd nes i gyfnod Ian Williams yn y swydd ddod i ben. O fis Awst 2024, penodwyd Mike Usher yn Gadeirydd a Dave Tosh yn Is-gadeirydd.

3.2 **Presenoldeb Aelodau PASR:** Roedd presenoldeb yr aelodau yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Aelod o'r Pwyllgor | Cyfanswm presenoldeb posib | Presenoldeb gwirioneddol | % presenoldeb |
|---|---|---|---|
| Ian Williams | 2 | 2 | 100 |
| John McSherry | 4 | 4 | 100 |
| Mike Usher | 4 | 4 | 100 |
| Joanest Varney-Jackson | 2 | 2 | 100 |
| Jane Martin | 4 | 3 | 75 |
| Dave Tosh | 4 | 4 | 100 |
| Laura Davies | 2 | 2 | 100 |
| Jayne Woods | 2 | 2 | 100 |

3.3 **Presenoldeb Arall:** Mae'r Ombwdsmon yn mynychu Cyfarfodydd PASR ac mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r Pwyllgor. Roedd archwilwyr allanol (Archwilio Cymru), archwilwyr mewnol (TIAA), aelodau priodol o Dîm Rheoli OGCC ac, fel sy'n briodol, aelodau eraill o staff OGCC wedi mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd.

3.4 **Gwrthdaro rhwng buddiannau**: Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn cwblhau datganiad blynyddol o fuddiannau a gyhoeddir yn flynyddol ar wefan OGCC. Hefyd, mae'r eitem gyntaf ar agenda unrhyw un o gyfarfodydd PASR yn gyfle i ddatgan unrhyw fuddiant sy'n benodol i eitemau ar agenda'r cyfarfod hwnnw.

3.5 **Cyfnod penodiad:** Mae pob penodiad i'r Pwyllgor yn para am gyfnod penodol o dair blynedd. Mae dewis gan yr Ombwdsmon i ymestyn y cyfnod hwn am dair blynedd arall. Mae llythyrau penodi ynghlwm â phob penodiad.

## 4. Hyfforddiant

4.1 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol, ac mae'r asesiadau hyn yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn.

## 5. Cyfarfodydd a Busnes y Pwyllgor

5.1 Mae agenda ddrafft ar gyfer pob cyfarfod Pwyllgor yn cael ei rhannu â'r holl aelodau, gan roi cyfle iddynt awgrymu ychwanegiadau neu newidiadau. Mae'r Cadeirydd yn adolygu'r agenda a'r papurau atodol sydd i'w trafod, cyn eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor a'r bobl eraill fydd yn bresennol.

5.2 Mae'r Pwyllgor yn llunio rhaglen waith flynyddol iddo'i hun ac yn ei dilyn. Mae'r cynllun gwaith hwn, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar gyflawni'r cynllun gwaith, ar gael yn Atodiad B. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

5.3 Ym mhob cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor nifer o eitemau sefydlog ar yr agenda, a oedd yn cynnwys adroddiadau yn ymwneud â datgan unrhyw dwyll neu golledion, ac unrhyw golled data a nodwyd. O ran colli data, mae'r Pwyllgor yn derbyn tabl sy'n rhestru'r mathau o ddigwyddiadau, a'u dyddiadau, a chanlyniad ymchwiliad OGCC, gan gynnwys atgyfeiriad i'r Comisiynydd Gwybodaeth pan fo'n briodol. Dilynodd OGCC y Broses Digwyddiadau Data a Hysbysu yn ystod y flwyddyn, gan ganfod a chymryd camau pellach angenrheidiol i gywiro unrhyw ddiffygion o ran prosesau neu systemau.

5.4 Ystyriodd pob cyfarfod o'r Pwyllgor adroddiad ar y gofrestr risg gorfforaethol. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor hefyd yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r risgiau allweddol canlynol:

a) Staff a staffio;
b) Nifer yr achosion ac amcanestyniadau; a
c) Y digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Ebrill 2024.

5.5 Ym mhob cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad Monitro Ariannol (chwarterol) diweddaraf a gyflwynwyd i'r Tîm Rheoli. Bwriad hyn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod craffu rheolaidd yn digwydd yn y swyddfa ar y sefyllfa ariannol, ac yr ystyriwyd materion a risgiau ariannol wrth gynnal rheolaeth ariannol. Hefyd, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r cyfrifon naw mis, y cyfrifon blynyddol drafft ac adroddiad yr archwilydd, gan gynghori'r Ombwdsmon cyn i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo.

5.6 Derbyniodd y Pwyllgor hefyd adroddiadau ar nifer o faterion priodol eraill a oedd o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys: adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban; diweddariadau ar ddatblygiadau TG mawr; diweddariad ar drefniadau iechyd a diogelwch ac adroddiadau ar faterion llywodraethu corfforaethol ac ariannol perthnasol. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adolygiad blynyddol OGCC o Fframwaith Atal Twyll Swyddfa'r Cabinet a pholisi gwrth-dwyll y sefydliad i fodloni ei hun fod trefniadau priodol ar waith.

5.7 Mewn ymateb i'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Ebrill 2024, cynhaliwyd trafodaeth o amgylch y bwrdd rhwng yr Ombwdsmon, ei huwch dîm ac aelodau'r PASR a'r Panel Cynghori, i fynd i'r afael â chynlluniau ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ym mis Hydref, cynhaliwyd gweithdy ar y cyd rhwng PASR / Panel Cynghori gyda hwylusydd allanol, yn dilyn sesiynau staff yn archwilio canlyniadau'r arolwg staff diweddaraf.

5.8 Yn ystod adolygiadau diwedd blwyddyn 2024-25, gwnaeth yr aelodau sylwadau cadarnhaol ar y ddwy sesiwn ar y cyd â'r Panel Cynghori a theimlent y dylai'r rhain ddod yn nodwedd reolaidd o drefniadau llywodraethu OGCC.

5.9 Rhoddodd y Pwyllgor gyngor i'r Ombwdsmon i sicrhau bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/2025 yn cynnwys gwybodaeth briodol ac yn cydymffurfio â'r arferion gorau.

## 6. Ystyriaethau yn y dyfodol

6.1 Wrth edrych ymlaen at flwyddyn 2025-2026, bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â'i waith yn unol â'r Rhaglen Waith yn Atodiad C. Bydd seiberddiogelwch yn parhau yn flaenoriaeth, a bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried risgiau allweddol dethol yn fanwl.

6.2 Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn craffu'n fanwl ar un adroddiad archwilio mewnol, er mwyn cael sicrwydd ynghylch ansawdd a dibynadwyedd gwaith archwilio mewnol a digonolrwydd ymatebion y rheolwyr.

## 7. Archwilio Mewnol ac Allanol

7.1 Darparodd TIAA wasanaethau archwilio mewnol i OGCC yn ystod blwyddyn 2024-2025. Roedd y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn dilyn y Strategaeth Archwilio a'r Cynllun Blynyddol a gyflwynwyd ac y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor ym mis Ebrill 2024.

7.2 Cynhaliwyd yr archwiliadau canlynol a gwnaed yr asesiadau cyffredinol canlynol:

| | **Lefel Sicrwydd:** |
|---|---|
| Llywodraethu – Rheoli Perfformiad Gweithredol | **SYLWEDDOL** |
| Ymchwiliad Chwythu'r Chwiban | **SYLWEDDOL** |
| Parhad Busnes | **SYLWEDDOL** |
| Gweithredu dilynol | **SYLWEDDOL** |
| Seiberddiogelwch | **RHESYMOL** |
| Delio â Chwynion | **SYLWEDDOL** |
| Datganiadau Buddiant gan Staff a Safonau Ymddygiad Staff | **SYLWEDDOL** |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | **SYLWEDDOL** |

Canfu gwaith archwilio TIAA fod gan y sefydliad brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu effeithiol ar waith. Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella lle bo hynny'n briodol.

7.3 Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi mai lefel y sicrwydd a roddwyd yn y rhan fwyaf o achosion oedd '**Sylweddol**', y lefel sicrwydd uchaf, a bod yr adolygiad Dilynol o argymhellion blaenorol wedi canfod y rhoddwyd ar waith yr holl argymhellion oedd i fod i gael eu rhoi ar waith.

7.4 Nododd Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol am 2024-2025: ‘Mae TIAA yn fodlon, o ran y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.’. Mae’r canfyddiad hwn yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar waith yn gwneud y swyddfa’n llai agored i risg, ac yn rheoli’r risg honno.

7.5 Mae’r rôl archwilio allanol, fel sy’n ofynnol gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, yn cael ei chyflawni gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Archwilio Cymru wnaeth y gwaith hwnnw yn ystod y flwyddyn. Bu’r Pwyllgor yn ystyried elfen cyfrifon Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol OGCC ar gyfer 2023-2024, ynghyd â'r Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr. Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2023-2024 ar 23 Gorffennaf 2024.

7.6 Ystyriodd y Pwyllgor Ddatganiad Llywodraethu drafft y swyddfa ar gyfer 2024-2025 a chytuno arno.

7.7 Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl, os ystyrir hynny'n briodol, i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored at y Cadeirydd, a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor yn fodlon, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd. Mae ansawdd y gwaith archwilio wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio a'r argymhellion a thrwy ddeialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr.

7.8 Er mwyn sicrhau bod modd codi materion priodol yn gyfrinachol, cynhelir cyfarfod byr rhwng yr Archwilwyr Allanol a Mewnol a holl Aelodau Annibynnol PASR cyn pob cyfarfod o'r PASR. Yn ogystal, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod blynyddol gyda chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 29 Ebrill 2025.

## 8. Prosesau Monitro

8.1 Ym mhob cyfarfod yn ystod 2024-2025, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr holl argymhellion a wnaed wedi cael eu rhoi ar waith neu y byddent yn cael eu rhoi ar waith o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

## 9. Adolygiad Blynyddol

9.1 Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i adolygu sut mae'r Pwyllgor yn gweithredu i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arferion Da sydd yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg Trysorlys EF. Mae pedwar ymarferiad asesu allweddol sy'n cyfrannu at yr adolygiad hwn. Y rhain yw:

- ymarferiad hunanasesu yr ymgymerwyd ag ef gan holl aelodau'r Pwyllgor;
- adolygiadau un i un a thrafodaeth yn cynnwys aelodau'r Pwyllgor a Chadeirydd y Pwyllgor;
- pob aelod o'r Pwyllgor wedi llenwi fersiwn wedi'i theilwra o 'Restr Wirio Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg' y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; ac
- arolwg mynychwyr, a gwblhawyd gan aelodau'r Pwyllgor, archwilwyr ac aelodau o staff OGCC sy'n mynychu'r Pwyllgor yn rheolaidd, sy'n gofyn am farn ar berfformiad a chyfraniad y Pwyllgor.

Mae'r sylwadau o'r ymarferiadau hyn wedi cael eu hystyried wrth ymgymryd â'r Adolygiad Blynyddol hwn.

9.2 Yn yr **ymarferiad hunanasesu**, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan bob Aelod o'r Pwyllgor ar y meysydd canlynol:

- Perfformiad yn erbyn yr Amcanion
- Cyflawniadau ac Effeithiolrwydd Personol
- Perthynas Waith
- Asesiad o Berfformiad y Pwyllgor

Roedd yr ymatebion yn dangos bod aelodau'r Pwyllgor yn gyffredinol o'r farn bod y Pwyllgor yn elwa o ystod dda o brofiad a gwybodaeth ar draws ei aelodaeth. Dywedodd yr aelodau fod yr Ombwdsmon a'r staff yn ymgysylltu â'r Pwyllgor ac yn ymateb yn gadarnhaol iddo.

9.3 Mae Cadeirydd PASR yn cynnal **adolygiadau un-i-un** bob blwyddyn gyda phob aelod o'r Pwyllgor ac yna'n cwrdd â'r Ombwdsmon, i drafod ac adolygu gwaith PASR drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i roi adborth ar weithgareddau'r Pwyllgor a'r ffordd y cynhelir cyfarfodydd. Roedd yr adborth a'r sylwadau'n gadarnhaol.

9.4 Llenwodd pob aelod o'r Pwyllgor y fersiwn wedi'i theilwra o **holiadur effeithiolrwydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.**

9.5 Yn y pedwerydd o'r ymarferiadau asesu y cyfeiriwyd atynt uchod, sef yr arolwg mynychwyr, gofynnwyd i gynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol, ac aelodau o staff OGCC sy'n mynychu cyfarfodydd PASR yn rheolaidd, lenwi arolwg ac ateb cwestiynau am berfformiad a chyfraniad y Pwyllgor. Roedd y cwestiynau'n ymdrin â chyfathrebu rhwng PASR a'r sefydliad, pa mor effeithiol yw'r cyfarfodydd, sut y cadeiriwyd y cyfarfodydd, gwybodaeth a phrofiad o fewn y Pwyllgor, gonestrwydd ac ymddiriedaeth, ac a yw'r Pwyllgor yn darparu her adeiladol ai peidio. Roedd pob un o'r ymatebion yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn ynghylch gweithrediad a chyfraniad y Pwyllgor ar draws yr holl feysydd hyn.

## 10. Asesiad Cyffredinol

10.1 Mae'r Pwyllgor yn fodlon ei fod wedi cael y sicrwydd cynhwysfawr sydd ei angen arno i ddiwallu ei anghenion a bod yr wybodaeth a gafodd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn ddibynadwy ac yn ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae hefyd yn fodlon â'r amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol, adroddiadau ariannol OGCC, rheoli risg ac ansawdd y gwaith Archwilio Allanol a Mewnol a wneir. Wrth gyflawni ei rôl, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael sicrwydd o ganlyniad i'r ymgysylltu adeiladol a gafodd â'r Ombwdsmon a'i staff sydd wedi bod yn agored i graffu a her wrth gyflawni eu dyletswyddau.

10.2 Drwy gydol ei waith yn 2024-25, mae'r Pwyllgor wedi gallu rhoi sicrwydd i gefnogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn effeithiol i gydymffurfio â'i chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor yn hyderus ei fod wedi cyflawni ei rôl yn gadarn ac yn broffesiynol, gan fanteisio ar arbenigedd a phrofiad helaeth aelodau'r Pwyllgor.

10.3 Wrth ymgymryd ag adolygiad blynyddol y Pwyllgor o'i berfformiad ei hun, mae'r Cadeirydd wedi rhoi her i aelodau unigol werthuso eu perfformiad a'u cyfraniad eu hunain. Mae o'r farn bod y Pwyllgor wedi gweithredu'n effeithiol ac yn unol ag arfer da.

## 11. Diolchiadau

11.1 Hoffai'r Cadeirydd gofnodi ei ddiolch i Aelodau Annibynnol presennol a blaenorol y Pwyllgor am eu gwaith, eu cyfraniadau, eu cymorth a'u cefnogaeth. Mae'r Cadeirydd hefyd yn ddiolchgar i gydweithwyr o Archwilio Cymru a TIAA am eu cefnogaeth a'u cyngor yn ystod y flwyddyn. Yn yr un modd, hoffai ddiolch i'r Ombwdsmon, ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ac aelodau Tîm Rheoli OGCC a'r staff am eu cyfraniadau at waith y Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn.

| |
|---|
| Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg<br>Atodiad B - Rhaglen Waith 2024-2025<br>Atodiad C - Rhaglen Waith 2025-2026 |

****************************************

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

# Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

**Statws y Pwyllgor**
Mae'r Ombwdsmon wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyda rôl i gefnogi'r Ombwdsmon yng nghyswllt ei gyfrifoldebau am faterion rheoli risg a llywodraethu, drwy adolygu ehangder y sicrwydd o ran ddiwallu anghenion sicrwydd y Swyddog Cyfrifyddu ac adolygu dibynadwyedd ac uniondeb y sicrwydd hwn.

**Aelodaeth**
Dyma aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

- isafswm o bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol a geisir gan yr Ombwdsmon ac a all gynnwys rhywun o swyddfa ombwdsmon arall)
- hyd at ddau aelod cyfetholedig.

Bydd y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella yn Ysgrifennydd i'r Pwyllgor. Bydd yr Ombwdsmon, ac aelodau eraill y Tîm Rheoli fel y'u pennir gan yr Ombwdsmon, yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Cyfnod yr Aelodau Annibynnol yn y swydd fydd tair blynedd. Mae dewis gan yr Ombwdsmon i ymestyn y cyfnod hwn am dair blynedd arall.

Un o'r aelodau allanol annibynnol fydd yn Cadeirio'r cyfarfodydd. Bydd Is-gadeirydd hefyd yn cael ei benodi. Bydd yr Ombwdsmon yn penodi aelodau annibynnol o'r Pwyllgor i fod yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd ar sail argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Pe bai'r Ombwdsmon yn penderfynu peidio â derbyn argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, caiff penderfyniad yr Ombwdsmon ei nodi yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor**
Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn craffu ac yn rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ar y canlynol:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- y cynlluniau Strategol a Busnes drafft ar sail cydymffurfiaeth, darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i gydnabod y gofyniad gyda'r archwiliad blynyddol i roi cyfrif am ddefnyddio cronfeydd;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol;
- y gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau'r archwiliad mewnol ac allanol;
- pa mor ddigonol yw ymateb y rheolwyr i faterion a ganfuwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr y rheolwyr archwilio allanol;

- sicrwydd sy’n ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol y sefydliad;
- (pan fo’n briodol) cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu’r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- Trefniadau parhad busnes;
- Trefniadau Iechyd a Diogelwch;
- bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd hefyd.

**Hawliau**

Caiff yr Ombwdsmon a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wneud y canlynol:

- cyfethol aelodau am gyfnod o amser (heb fod yn fwy na blwyddyn) i ddarparu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad arbenigol sydd eu hangen ar y Pwyllgor ar adeg benodol;
- gofyn am gyngor ad-hoc arbenigol, ar yr amod bod hynny o fewn y gyllideb.

**Mynediad**

- Bydd gan gynrychiolydd yr Archwiliad Mewnol a chynrychiolydd yr Archwiliad Allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Cyfarfodydd**

- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu'r Ombwdsmon alw cyfarfodydd ychwanegol, fel sydd angen yn eu barn nhw.
- Bydd gofyn bod o leiaf tri aelod annibynnol o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn bresennol er mwyn i’r cyfarfod gael ei ystyried yn gyfarfod â chworwm.
- Os na fydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod, bydd yr Is-gadeirydd yn cymryd y gadair neu os nad yw’r is-gadeirydd chwaith yn gallu bod yn bresennol, bydd aelod annibynnol arall yn cymryd y gadair.
- Yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel arfer bydd yr Ombwdsmon; Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella; Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau; Rheolwr TG; Cyfrifydd Ariannol; cynrychiolwyr Archwilio Mewnol; a chynrychiolwyr Archwilio Allanol.
- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw swyddog arall o’r swyddfa fynychu er mwyn ei gynorthwyo gyda’i drafodaethau ynglŷn ag unrhyw fater.
- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wahodd pobl neu gyrff eraill i fynychu cyfarfodydd er mwyn rhoi cyngor proffesiynol neu wybodaeth am unrhyw fater y mae'r Pwyllgor yn ystyried ei fod yn berthnasol ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau’n briodol.
- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw un, neu bawb, sy'n arfer mynychu'r cyfarfod ond nad ydynt yn aelodau, adael yr ystafell er mwyn hwyluso trafodaeth agored ac onest ar faterion penodol.

**Datgan Buddiannau Aelodau**
Mae'n ofynnol i aelodau ddatgan unrhyw fuddiant personol yn unol â Pholisi OGCC ar Ddatgan Buddiannau yng nghyswllt aelodau'r Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Gofynion o ran Gwybodaeth**
Ar gyfer pob cyfarfod, rhoddir y canlynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol i Gofrestr Risgiau'r sefydliad, yn ogystal â rhestr o eitemau risg Uchel a Chanolig;
- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Archwilio Mewnol yn crynhoi'r canlynol:
  - y gwaith a gyflawnwyd (a'i gymharu â'r gwaith a fwriadwyd);
  - materion allweddol sy'n deillio o waith Archwilio Mewnol;
  - ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
  - newidiadau i'r Cynllun Cyfnodol;
  - unrhyw faterion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni amcanion Archwilio Mewnol.
- adroddiad neu adroddiadau am unrhyw achosion arwyddocaol o dorri fframwaith rheoli'r sefydliad, twyll ariannol, colledion, gwaredu asedau, dileu, caffael y tu allan i'r trefniadau arferol ac unrhyw faterion eraill y mae'r Pwyllgor yn gofyn am adroddiad arnynt ymhob un o'i gyfarfodydd.

Bydd y cynrychiolydd Archwilio Allanol yn adrodd fel y bo'n briodol ar unrhyw waith a wnaed a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Pan fo'n briodol, rhoddir y canlynol i'r Pwyllgor hefyd:

- y Strategaeth Archwilio Mewnol;
- cynigion ar gyfer Cylch Gorchwyl yr Archwiliad Mewnol;
- copi o'r holl adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol;
- unrhyw adroddiadau sicrhau ansawdd ar y swyddogaethau Archwilio Mewnol ac Allanol;
- cyfrifon drafft y sefydliad;
- y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- Adroddiad ISA 260 Archwilio Mewnol a llythyr y rheolwyr mewn perthynas â hynny;
- adroddiad llafar ar y cydweithio rhwng gwaith Archwilio Mewnol ac Allanol;
- cynigion ar gyfer tendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu Allanol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- unrhyw newidiadau i'r polisi a'r strategaeth rheoli risg;
- unrhyw newidiadau i bolisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i unrhyw elfennau o'r fframwaith rheoli.

**Adrodd**

- Bydd pob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei gofnodi mewn cofnodion a fydd yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn rhoi Adroddiad Blynyddol i'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi'i amseru i ategu'r gwaith o lunio'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaed yn ystod y

flwyddyn.

- Sylwch: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ac yn unol â'r Cylch Gorchwyl hwn, nid oes gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg nac unrhyw aelodau unigol unrhyw rôl na chylch gwaith yng nghyswllt penderfyniadau am waith achos a wneir gan OGCC a rhoi cyngor yn unig yw eu gwaith mewn materion gweithredol.

*******************************************

Cymeradwywyd gan y Tîm Rheoli ar 12 Gorffennaf 2024
Cadarnhawyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 24 Gorffennaf 2024
Adolygiad Nesaf:  Gorffennaf 2025

**Atodiad B**

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
## Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) 2024-2025

| **Cyfarfod: Mai 2024** |
|---|

Datganiad Llywodraethu Drafft
Archwilio Allanol – Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2024-2025
Ymholiadau Archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheolaeth
Adroddiad Monitro Ariannol 2023-24
Alldro dangosol 2023-24
Y Gofrestr Risg
Ystyriaeth fanwl o risg allweddol
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Archwilio Mewnol - Adroddiad Blynyddol 2023-2024
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-2025
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i PASR

| **Ebost: Mai 2024** |
|---|

Dosbarthu Cyfrifon Blynyddol Drafft 2023-2024 i aelodau PASR

| **Cyfarfod: Gorffennaf 2024** |
|---|

Cyfrifon Blynyddol 2023-2024 (gan gynnwys Datganiad Llywodraethu)
Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr
Adroddiad Monitro Ariannol
Y Gofrestr Risg
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i PASR
Adolygiad Blynyddol o'r Polisi Chwythu'r Chwiban a'r Adroddiad Chwythu'r Chwiban Blynyddol
Adolygu Cylch Gorchwyl PASR
Adolygiad Blynyddol PASR gan gynnwys Adolygiad Effeithiolrwydd
Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau PASR

| **Cyfarfod: Hydref 2024** |
|---|

Adroddiad Monitro Ariannol
Adolygiad Blynyddol o'r Polisi Rheoli Risg
Y Gofrestr Risg
Ystyriaeth fanwl o risg allweddol
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Adolygu'r fframwaith Atal Twyll, y trefniadau gwrth-lygredd a'r polisi gwrth-dwyll
Adolygiad o Bolisïau Ariannol a Chaffael
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i PASR
Adolygiad a diweddariad blynyddol ar Barhad Busnes
Diweddariad Archwilio Cymru

| Cyfarfod: Chwefror 2025 |
| --- |

Adroddiad Monitro Ariannol
Cyfrifon Naw Mis
Y Gofrestr Risg
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Adolygu Rhaglen Waith PASR
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i PASR
Diweddariad blynyddol Iechyd a Diogelwch
Diweddariad Archwilio Cymru

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
## Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) 2025-2026

| **Cyfarfod: Ebrill 2025** |
|---|
| Datganiad Llywodraethu Drafft |
| Archwilio Allanol – Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2025-2026 |
| Ymholiadau Archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheolaeth |
| Adroddiad Monitro Ariannol 2024-25 |
| Alldro dangosol 2024-25 |
| Y Gofrestr Risg |
| Ystyriaeth fanwl o risg allweddol |
| Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl) |
| Archwilio Mewnol - Adroddiad Blynyddol 2024-2025 |
| Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd |
| Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-2026 |
| Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth |
| Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i PASR |

| **Ebost: Mai 2025** |
|---|
| Dosbarthu Cyfrifon Blynyddol Drafft 2024-2025 i aelodau'r PASR |

| **Cyfarfod: Gorffennaf 2025** |
|---|
| Cyfrifon Blynyddol 2024-2025 (gan gynnwys Datganiad Llywodraethu) |
| Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr |
| Adroddiad Monitro Ariannol |
| Y Gofrestr Risgiau |
| Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl) |
| Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd |
| Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth |
| Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i PASR |
| Adolygiad Blynyddol o'r Polisi Chwythu'r Chwiban a'r Adroddiad Chwythu'r Chwiban Blynyddol |
| Adolygu Cylch Gorchwyl PASR |
| Adolygiad Blynyddol PASR gan gynnwys Adolygiad Effeithiolrwydd |
| Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau PASR |

| **Cyfarfod: Hydref 2025** |
|---|
| Adroddiad Monitro Ariannol |
| Adolygiad Blynyddol o'r Polisi Rheoli Risg |
| Y Gofrestr Risg |
| Ystyriaeth fanwl o risg allweddol |
| Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl) |
| Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio |
| Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd |
| Adolygu'r ffframwaith Atal Twyll, y trefniadau gwrth-lygredd a'r polisi gwrth-dwyll |
| Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth |
| Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i PASR |
| Adolygiad a diweddariad blynyddol ar Barhad Busnes |
| Diweddariad Archwilio Cymru |

| Cyfarfod: Ionawr 2026 |
| --- |

Adroddiad Monitro Ariannol
Cyfrifon Naw Mis
Y Gofrestr Risg
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)
Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiadau Cynnydd
Adolygu Rhaglen Waith PASR
Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth
Materion eraill y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i PASR
Diweddariad blynyddol Iechyd a Diogelwch
Diweddariad Archwilio Cymru